CYMDEITHAS HANES A CHOFNODION MEIRIONNYDD
Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor
a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn, 14 Hydref 2017 yn Neuadd Llanelltud.

Presennol: Y Cadeirydd; Gruffydd Aled Williams; Dr Colin Thomas; Elwyn A Jones; Rheinallt Llwyd; Megan Huggins; Gwerfyl Price, Jenny Lees; Vivian Parry Williams; Arwyn Lloyd Hughes; Elena Williams; Rhian Parry; Catherine James; Aled Ellis; Yr Ysgrifennydd.

Ymddiheuriadau: Hefin Birch; Hugh G Roberts; Awel Jones; Steffan ab Owain; Elizabeth Andrews; Buddug Medi; Ann Rhydderch, Linda Tomos; A L Darbyshire; Geraint F Roberts; E D Evans.

* * * * * * * * *

1. Croeso: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac wrth agor y Cyfarfod nododd ein tristwch a'n hiraeth o golli 4 aelod blaenllaw yn ystod y flwyddyn aeth heibio; Yr Arglwydd Gwilym Prys Davies; Pegi Lloyd-Williams; Nan Griffiths a'r Dr Iwan Bryn Williams.

2. Derbyn Cofnodion y Cyngor: Derbyniwyd y Cofnodion fel cofnod cywir.

3. Materion yn Codi:

(i) Peter A Jones, ein harchwilydd: roedd teimlad cryf y dylem gydnabod gwaith ein harchwilydd. Nododd y Cadeirydd y byddai'n gofalu am hynny.

(ii) Cadw Offer: mae'r Archifdy yn Nolgellau yn fodlon i ni storio ein hoffer technegol yno ond ar ein risg ein hunain. Cadarnhawyd y byddent yn dymuno derbyn llythyr yn nodi rhifau'r offer unigol fel na fyddai unrhyw ddryswch yn codi.

(iii) e-byst: diolchwyd i'r aelodau hynny sydd wedi rhoi manylion eu cyfeiriadau e-bost, dull a ddefnyddiwyd i arbed arian sylweddol i'r Gymdeithas.

4. Gohebiaeth: Cyfeiriwyd at y llythyrau canlynol –

(i) Cais am arian gan 'Darganfod Hen Dai Cymreig' am £500. Wedi trafodaeth fanwl am y pryderon o weld elusen yn rhoi arian i elusen arall, gofynnwyd i'r swyddogion edrych i mewn i'r mater i sicrhau bod gennym hawl i gyfrannu.

(ii) Cais gan John Townsend i 'Darganfod Hen Dai Cymreig' gael defnyddio deunydd y Gymdeithas ar gyfer eu gwaith ymchwil. Wedi trafodaeth am hawlfraint gofynnwyd i'r swyddogion, eto, ymateb i'r cais hwn.

5. Cyfrifon: Cyflwynodd y Trysorydd ei Adroddiad am y flwyddyn a mynegodd ei ddiolch i Pamela Michael a Megan Huggins am eu gwaith fel Ysgrifenyddion Aelodaeth, diolchodd i Nereus yn y Bala am ei waith yn paratoi'r fantolen ac i Peter A Jones am archwilio. Cyfeiriodd yr aelodau at y fantolen gan nodi bod gostyngiad yn nifer yr aelodau, bod y llogau hefyd wedi gostwng o 2% mewn tair blynedd. Soniodd ei fod wedi ymchwilio i gyfrifon sy'n cynnig gwell llogau ond bod angen symiau sylweddol iawn i gael cyfradd uwch ac y byddai'n well gadael pethau fel y maent ar hyn o bryd. Cyfeiriodd at y ffaith bod y Mynegai i'r *Cylchgrawn* a'r prosiect Cofio a Chreithiau wedi tynnu costau yn y flwyddyn ariannol hon. Soniodd y bydd angen penderfyniad ar ffurf y Mynegai nesaf i'r *Cylchgrawn* a chyfeiriodd at y ffaith bod stoc sylweddol o'r *Cylchgrawn* yn yr Archifdy a thrwy hynny bod arian sylweddol yn sefyll yno. Nododd bod ein hincwm yn is ond bod y taliad yswiriant yn uwch oherwydd yr offer newydd a bod prisiau yswiriant wedi codi beth bynnag. I gloi nodwyd bod y Gymdeithas wedi rhedeg ar golled yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Codwyd cwestiwn o'r llawr ynglŷn â stoc y *Cylchgrawn* ac a fyddai o werth ei gynnig am bris gostyngol. Diolchodd y Cadeirydd i'r Trysorydd a Peter A Jones am eu gwaith trylwyr.

6. Yr Adroddiad Blynyddol: Tynnwyd sylw Aelodau'r Cyngor at yr adroddiad. Penderfynwyd argymell i'r Cyfarfod Cyffredinol dderbyn yr adroddiad.

7. Aelodaeth: Agorodd Megan Huggins ei hadroddiad trwy ddiolch yn fawr i'r Dr Pamela Michael am ei gwaith dros y blynyddoedd. Cyfeiriodd yr aelodau at yr Adroddiad Blynyddol gan nodi bod gostyngiad bychan yn nifer yr aelodau. Nododd ei bod wedi cynhyrchu Ffurflen Aelodaeth newydd a ffurflen Archeb Sefydlog newydd a'u bod ar gael ar y we. Diolchwyd i'r Ysgrifennydd am ei hadroddiad.

8. *Y Cylchgrawn*: Cyfeiriodd y Golygydd hefyd at yr Adroddiad Blynyddol gan nodi bod y *Cylchgrawn* wedi ei ddosbarthu erbyn hyn. Diolchwyd i Aeron Jones a'r argraffwyr am eu gwaith ac i'r holl gyfranwyr am fod mor ddibynadwy. Nododd bod ganddo ddwy erthygl mewn llaw yn barod at y rhifyn nesaf ond dim un yn Gymraeg eto.

9. Cyfarfodydd: Cyfeiriodd y Trefnydd at y cyfarfodydd a fu yn ystod y flwyddyn, ein hymweliad ag Aberystwyth i gofio Robert Vaughan; araith Andrew Wolfe ym mis Mehefin a'r ymweliad â Chaer-gai ym mis Gorffennaf. Diolchodd y Cadeirydd i Gwerfyl am ei gwaith trylwyr yn trefnu ac yn cyfieithu mewn nifer o gyfarfodydd.

10. Ethol Swyddogion: Cadarnhaodd y cyfarfod y penodiadau canlynol:

Llywydd: Gruffydd Aled Williams; **Is-lywyddion:** E D Evans, I G Jones, Ann Rhydderch, P R Roberts, Geraint F Roberts, Arwyn Lloyd Hughes, Dr Colin Thomas, Brian Slyfield*; **Cadeirydd:** Gerallt W Hughes; **Ysgrifennydd:** Beryl H Griffiths; **Ysgrifennydd Aelodaeth:** Megan Huggins; **Trysorydd:** Rheinallt G Llwyd; **Archwiliwr:** Peter A Jones; **Golygydd:** Arwyn Lloyd Hughes; **Trefnydd Cyfarfodydd:** Gwerfyl Price

Cynrychiolwyr yr Ardaloedd

1. Blaenau Ffestiniog: Steffan ab Owain, V P Williams, Geraint Vaughan Jones* **2. Penrhyndeudraeth:** Geraint Lloyd Jones, Pamela F Michael, Aled Ellis **3. Abermaw:** Peter Thompson, Hugh G Roberts, Leslie A Derbyshire **4. Dolgellau:** Jess John*, E Linda Tomos, Catherine James **5. Tywyn:** M H Birch, Syr Meuric Rees, Dr Elizabeth Andrews **6. Penllyn:** Awel Jones, Mel Williams, Ffion M Jones* **7. Edeirnion:** Elwyn A Jones, Elena Williams, Jenny Lees **8. Aelodau Cyfetholedig:** Nia M W Powell, Dwynwen Roberts, John G Roberts, Einion W Thomas

(*) *Aelodau a etholwyd o'r newydd neu wedi newid swydd.*

11. Unrhyw Fater Arall:

i) Soniwyd ein bod wedi derbyn cais gan Howard Williams o Gaer y byddai'n dymuno cyhoeddi erthygl Dai Morgan Evans am Eglwys Llangar mewn cyfrol goffa iddo. Cadarnhawyd bod y Gymdeithas yn barod iawn i gefnogi hynny.

12. Cloi: Dirwynodd y Cadeirydd y cyfarfod i ben gan ddiolch i bawb am eu cefnogaeth a rhwyddineb y trafodaethau.

Cofnodion y Cyngor.indd 1 02/10/2018 17:04

MERIONETHSHIRE HISTORICAL AND RECORDS SOCIETY

Minutes of the Executive Council Meeting

held on Saturday, 14 October 2017 at Llanelltud Village Hall.

Present: The Chairman; Gruffydd Aled Williams; Dr Colin Thomas; Elwyn A Jones; Rheinallt Llwyd; Megan Huggins; Gwerfyl Price; Jenny Lees; Vivian Parry Williams; Arwyn Lloyd Hughes; Elena Williams; Rhian Parry; Catherine James; Aled Ellis; The Secretary.

Apologies: Hefin Birch; Hugh G Roberts; Awel Jones; Steffan ab Owain; Elizabeth Andrews; Buddug Medi; Ann Rhydderch, Linda Tomos; A L Darbyshire; Geraint F Roberts; E D Evans.

* * * * * * * *

1. Welcome: The Chairman welcomed all the members to the meeting and noted our sadness at losing 4 prominent members of the Society during the year; Lord Gwilym Prys Davies; Pegi Lloyd-Wiliams, Nan Griffiths and Dr Iwan Bryn Williams.

2. Minutes of Council Meeting: The Minutes were accepted.

3. Matters Arising:

(i) Peter A Jones, our auditor: it was felt that we should recognize our auditor's work in some way, the Chair noted that he would action this.

(ii) Storage of Technical Equipment: the Record Office at Dolgellau are willing to store our equipment but at our own risk. It was confirmed that they would need a letter stating the individual numbers of the various items to avoid any confusion regarding them.

(iii) e-mails: those members who have supplied their e-mail addresses were thanked. The Society has used them to save a considerable amount on postage.

4. Correspondence: The following correspondence was referred to –

(i) An application for funding by 'Discovering Old Welsh Houses' for £500. Following a detailed discussion regarding concerns when a charity gives funds to another charity and the legal implications of doing so, the meeting asked the officers to look into the matter to ensure we can contribute.

(ii) Request by John Townsend for 'Discovering Old Welsh Houses' for permission to copy various materials published by the Society to be used in their research. Following a discussion regarding copyright, the officers, again, were asked to look into the matter.

5. Accounts: The Treasurer presented his Report for the year and expressed his gratitude to Pamela Michael and Megan Huggins for their work as Membership Secretaries. He also thanked Nereus of Bala for the preparation of the balance sheet and to Peter A Jones for his work as auditor. He referred the members to the balance sheet stating that there had been a reduction in the number of members and that interest rates had decreased by 2% over three years. He informed the meeting that he has looked into accounts that offer better interest rates but very significant sums would have to be invested to benefit from the higher interest rates and it was considered to be better to leave things as they are at present. He referred to the fact that the Index to the *Journal* and the project on the First World War had incurred costs in this financial year. He mentioned that the best format for the next Index should be decided and that we should consider the stock of back-issues of the *Journal* stored at the Record Office as they are substantial. Our income has decreased but the insurance payment is higher due to the new equipment bought and that insurance premiums have increased in general. To close, it was stated that the Society had run at a loss in the last financial year. A question was raised from the floor regarding the stocks of back-issues, asking if we should consider selling at a reduced price. The Chariman expressed our gratitude to the Treasurer and Peter A Jones for their meticulous work.

6. The Annual Report: The Annual Report was presented to the members. It was resolved to recommend that the AGM should accept the report.

7. Membership: Megan Huggins opened her report by thanking Dr Pamela Michael for her work over the years. She referred the members to the Annual Report stating that there had been a small decrease in the number of members. A new Membership Form has been produced and a new Standing Order and they are available on our website. The Chairman thanked the Secretary for her report.

8. *The Journal*: The Editor also referred to the Annual Report, stating that the *Journal* has now been distributed. Our gratitude to Aeron Jones and the printers was expressed and to all the contributors for being so dependable. Two articles have already been received for the next edition, but none in Welsh so far.

9. Meetings: The Meetings Organiser referred to the various meetings held during the year, our visit to Aberystwyth to commemorate the death of Robert Vaughan; Andrew Wolfe's lecture in June and the visit to Caer-gai in July. The Chairman thanked Gwerfyl for her diligent work in arranging the meetings and also for her contribution in translating at many of the meetings.

10. Election of Officers: The meeting confirmed the appointment of the following:

President: Gruffydd Aled Williams; **Vice-presidents:** E D Evans, I G Jones, Ann Rhydderch, P R Roberts, Geraint F Roberts, Arwyn Lloyd Hughes, Dr Colin Thomas, Brian Slyfield*; **Chair:** Gerallt W Hughes; **Secretary:** Beryl H Griffiths; **Membership Secretary:** Megan Huggins; **Treasurer:** Rheinallt G Llwyd; **Auditor:** Peter A Jones; **Editor:** Arwyn Lloyd Hughes; **Meetings Organiser:** Gwerfyl Price

District Representatives –

1. Blaenau Ffestiniog: Steffan ab Owain, V P Williams, Geraint Vaughan Jones* **2. Penrhyndeudraeth:** Geraint Lloyd Jones, Pamela F Michael, Aled Ellis **3. Barmouth:** Peter Thompson, Hugh G Roberts, Leslie A Derbyshire **4. Dolgellau:** Jess John*, E Linda Tomos, Catherine James **5. Tywyn:** M H Birch, Syr Meuric Rees, Dr Elizabeth Andrews* **6. Penllyn:** Awel Jones, Mel Williams, Ffion M Jones* **7. Edeirnion:** Elwyn A Jones, Elena Williams, Jenny Lees

8. Co-opted Members: Nia M W Powell, Dwynwen Roberts, John G Roberts, Einion W Thomas

(*) *Members newly elected or who have changed roles.*

11. Any Other Business:

i) The meeting was informed of a request by Howard Williams of Chester asking whether he could publish and article by Dai Morgan Evans on Llangar Church in a volume in his honour. It was confirmed that the Society was very willing to allow this request.

12. Close: The Chairman brought the meeting to an end thanking all present for their support and willingness to contribute.